WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 0JJ

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 674A2013 |
| **Dyddiad** | 10 Rhagfyr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **3** |

Annwyl Simon

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 18 Medi 2013, rhoddais fy marn ar b'un a oedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae hefyd yn ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch p'un a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed hyd yn hyn, mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant yn unol â'r Mesur, er bod lle i gryfhau ei drefniadau ymhellach.**

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd yr Awdurdod Asesiad o'i Berfformiad (yn dwyn y teitl *Sut y gwnaethom ni yn 2012-13*?) cyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref 2013;
- mae *Sut y gwnaethom ni yn 2012-13?* yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut y mae'r Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y mesur;
- mae'r Asesiad yn gwerthuso llwyddiant yr Awdurdod wrth gyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn eglur;
- mae'r Asesiad yn cynnwys manylion am berfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad Strategol a Chraidd Cenedlaethol;

- mae'r Asesiad yn cynnwys adran sy'n amlinellu'r gweithgareddau cydweithredol allweddol y mae'r Awdurdod yn rhan ohonynt, ac yn benodol gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol a chydweithio ag Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill; ac
- mae'r Asesiad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan yr Awdurdod.

Gallai'r Awdurdod wella ei Asesiad ymhellach drwy wneud y canlynol:

- **Defnyddio data mwy cymharol:** prin iawn yw'r cyfeiriadau yn y ddogfen at sut y mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion Strategol a Chraidd Cenedlaethol yng Ngogledd Cymru yn cymharu â gweddill Cymru neu rannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ni ddefnyddir unrhyw ddangosyddion lleol i gymharu perfformiad ag Awdurdodau Gwella eraill yng Nghymru. Felly, bydd amgyffrediad y cyhoedd o berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â chyrff eraill tebyg yn gyfyngedig ac nid yw'r Awdurdod yn datgan yn glir pa mor dda y mae'n perfformio, yn ei farn ef, o gymharu ag eraill. Byddai defnyddio data perfformiad mwy cymharol yn helpu i egluro cyflawniadau'r Awdurdod a'r heriau sy'n ei wynebu yn y dyfodol.
- **Sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r adroddiad ar yr Asesiad:** mae'r Awdurdod wedi nodi y bydd yn hysbysu rhanddeiliaid bod yr Asesiad ar gael yn y dyfodol ond hyd yn hyn, prin yw'r gwaith a wnaed i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod Asesiad o Berfformiad wedi'i gynnal. Ni chaiff gyhoeddusrwydd ar hafan yr Awdurdod, ond o fewn y tudalennau Cynllunio gwelliant, ac ni chymerwyd unrhyw gamau uniongyrchol i dynnu sylw ato eto.
- **Cyhoeddi crynodeb o'r Asesiad:** ni chynhyrchwyd unrhyw grynodeb o'r Asesiad o Berfformiad, er ein bod ar ddeall bod yr Awdurdod yn bwriadu cynhyrchu crynodeb yn y dyfodol.
- **Sicrhau bod yr Asesiad ar gael mewn amrywiaeth eang o fformatau**: cyfeirio'r cyhoedd at wahanol fformatau o'r Asesiad o Berfformiad, er enghraifft, mewn print bras, Braille neu ieithoedd gwahanol gan na chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y ddogfen ar hyn o bryd.
- **Gwahodd sylwadau neu gyfraniadau penodol gan ddinasyddion a'r gymuned am yr Asesiad:** gan na chaiff hyn ei gynnwys yn y ddogfen ar hyn o bryd.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Caiff pedwar cynnig newydd ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Sicrhau y caiff adroddiad yr Asesiad o Berfformiad ei hyrwyddo'n amlwg ar wefan yr Awdurdod ac y rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'w fodolaeth. |
| C2 | Cwblhau crynodeb o'r adroddiad a rhoi cyhoeddusrwydd iddo gan sicrhau y caiff rhanddeiliaid allanol eu hysbysu amdano. |
| C3 | Sicrhau bod adroddiad yr Asesiad o Berfformiad ar gael mewn gwahanol fformatau ac y nodir hynny'n glir yn yr adroddiad. |
| C4 | Cynnwys adran yn gwahodd sylwadau neu gyfraniadau penodol gan ddinasyddion a'r gymuned am yr Asesiad. |

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau'r Awdurdod yn ystod y misoedd nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arno, yn ogystal â chrynhoi'r holl waith a wnaed gennyf a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14 mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Awdurdod y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Lisa Williams – Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad